PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

Creu strategaeth ‘Llwybrau Gwyllt’: Briff polisi ar gyfer Partneriaethau Natur Lleol

Woodcock, Elizabeth

Cyhoeddwyd: 15/02/2023

PDF y cyhoeddwr, a elwir hefyd yn Fersiwn o’r cofnod

Cyswllt i'r cyhoeddiad / Link to publication

Dyfyniad o'r fersiwn a gyhoeddwyd / Citation for published version (APA):
Woodcock, E. (2023). Creu strategaeth ‘Llwybrau Gwyllt’: Briff polisi ar gyfer Partneriaethau Natur Lleol.

Hawliau Cyffredinol / General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

11. Sept. 2024

Creu strategaeth ‘Llwybrau Gwyllt’

Briff polisi ar gyfer Partneriaethau Natur Lleol

Crynodeb

- Mae angen i Bartneriaethau Natur Lleol (PNLl) gydweithio â phartneriaid lluosog er mwyn cyflawni gweledigaeth PNLl Cymru am rwydwaith adfer natur.

- Nododd ymchwil ddiweddar yng Nghymru (Woodcock, 2022) gyfyngiadau lluosog ar allu partneriaid rhwydwaith i gydweithio ar gynlluniau ar y cyd, yn adlewyrchu profiadau cynnar sawl PNLl:
    - Strategol – achosion cyfyngedig o rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau
    - Llywodraethu – arferion rheoli hierarchaidd cyfyngol
    - Gweithredol – diffyg amser rheolwyr i weithio gyda phartneriaid eraill
    - Cymuned – diffyg sgiliau i weithio gyda’r gymuned leol

- Creodd y prosiect ymchwil strategaeth benodol, o’r enw ‘Llwybrau Gwyllt’, i wella gallu partneriaid rhwydwaith i gydweithio, trwy wneud y canlynol:
    - Cyfuno strategaethau allweddol (egwyddorion y maent yn eu defnyddio i ddylunio prosiectau) sefydliadau partner lluosog
    - Ysgogi cyd-atebolrwydd
    - Creu buddion i'r ddwy ochr
    - Adeiladu asedau cymunedol

- Mae’r papur briffio polisi hwn yn egluro sut y gall y PNLl ymestyn nifer y partneriaid yn gweithio tuag at adfer natur drwy greu cysylltiadau gyda rhaglenni ar gyfer gwydnwch ecolegol, iechyd y cyhoedd a datblygu cymunedol.

- Mae papur briffio polisi sy’n cyd-fynd ag ef, sef ‘Creu diwylliant cydweithredol mewn Partneriaeth Natur Lleol’, yn esbonio sut y gall ymchwil weithredu (math cyfranogol o ddysgu trwy weithredu ar y cyd) helpu’r PNLl i ymestyn y rhwydwaith i bartneriaid eraill.

Cydweithio a gweledigaeth PNLl Cymru

Amcan PNLl Cymru yw creu Cymru gyfoethog o ran ei natur, drwy adeiladu rhwydwaith o Bartneriaethau Natur Lleol. Mae cydweithio gyda phartneriaid amgylcheddol a rhai sydd heb ganolbwynt ar natur yn allweddol ar gyfer gweledigaeth y PNLl i gyflawni'r canlynol:

- Ymgysylltu â phobl, cymunedau, busnesau a gwneuthurwyr penderfyniadau
- Cyflawni camau ymarferol ynghyd â chynlluniau strategol,
- Creu Cymru iach, wydn a chyfoethog o ran ei natur.

Heriau cydweithio ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae astudiaethau o rwydweithiau strategol yn dangos bod angen iddynt greu diwylliant gwneud penderfyniadau ar y cyd sy'n gwella'r gallu i gydweithio ar lefelau lluosog:

- **Strategol** – strwythurau i wella cyd-ddealltwriaeth a chreadigrwydd
- **Llywodraethu** – prosesau i gefnogi trosolwg ar y cyd o berfformiad
- **Gweithredol** – arferion i hwyluso gwaith cynllunio a chyflwyno rhaglenni ar y cyd
- **Cymuned**[1] – sgiliau i gynnwys cymunedau

Nododd ymchwil ddiweddar yng Nghymru (Woodcock, 2022) gyfyngiadau ar bob un o'r lefelau hyn ar allu rhwydweithiau i gytuno ar gynlluniau gweithredu ar y cyd.

Strategol – mae arbenigedd sefydliadau yn lleihau cyd-ddealltwriaeth ac yn creu blaenoriaethau neu amcanion llesiant sy'n cystadlu â'i gilydd.

Llywodraethu – mae prosesau hierarchaidd (o'r brig i'r bôn) a dibyniaeth ar adnoddau yn eithrio rhai pobl rhag gwneud penderfyniadau ac yn rhoi mwy o ddylanwad i eraill.

Gweithredol – mae diffyg amser a neilltuir i weithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd i nodau partner 'arwain' yn cyfyngu ar gyfleoedd i gydlunio prosiectau.

Cymuned – mae proses o broffesiynoli rolau'n fwy yn lleihau'r hyder, sgiliau ac asedau sydd gan wirfoddolwyr, cymunedau a sefydliadau i gydweithio.

[1] Defnyddir 'cymuned' i gyfeirio at leoliad daearyddol ar wahanol raddfeydd neu grŵp diddordeb.

Canfyddiadau ymchwil weithredu

Sefydlodd y prosiect ymchwil ddau rwydwaith aml-sefydliad dros dro i ganfod p'un allai partneriaid leihau'r cyfyngiadau ar gydweithio ac ym mha ffordd y gallent wneud hynny.

Cymerodd y rhwydweithiau ran mewn ymchwil weithredu (math cyfranogol o ddysgu trwy weithredu ar y cyd) a chynhyrchwyd dau brif ganfyddiad a all helpu'r PNLl i weithredu ar y cyd.

Canfyddiad 1: Gall defnyddio dulliau ymchwil weithredu greu diwylliant rhwydwaith cydweithredol.

Canfyddiad 2: Creodd y partneriaid strategaeth 'Llwybrau Gwyllt' ymarferol a ddangosodd fanteision cydweithio.

Esbonnir y canfyddiad cyntaf yn y papur briffio polisi 'Creu diwylliant cydweithredol mewn PNLl'. **Mae'r briff polisi hwn yn canolbwyntio ar yr ail ganfyddiad, i egluro sut y gall y PNLl greu strategaeth 'Llwybrau Gwyllt' i wella'r gallu i gydweithio.**

Strategaeth Llwybrau Gwyllt ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Gall PNLl gynnwys partneriaid o feysydd iechyd y cyhoedd, llywodraeth leol a grwpiau cymunedol drwy greu strategaeth Llwybrau Gwyllt benodol i'w ardal leol a'i anghenion ac asedau.

Mae'r strategaeth hon yn newid nifer o gyfyngiadau ar gydweithio:

Strategol – mae Llwybrau Gwyllt yn cyfuno strategaethau allweddol sefydliadau partner lluosog mewn un strategaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Llywodraethu – mae'r strategaeth ar y cyd yn golygu bod pob partner yn elwa ar gynnwys pryderon partneriaid eraill, sydd yn ysgogi atebolrwydd a rennir.

Gweithredol – mae'r strategaeth yn cysylltu rhaglenni gwaith presennol i hwyluso gweithredu ar unwaith a chreu buddion i'r partneriaid o gydweithio.

Cymuned – mae cynnwys cymunedau yn adeiladu sgiliau ac asedau ychwanegol i gynnal y buddion hirdymor i bob sefydliad partner a chymuned.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

Sut mae strategaeth Llwybrau Gwyllt yn gweithio?

Mae'r adran hon yn nodi'n gryno sut y gall y PNLl greu strategaeth Llwybrau Gwyllt. Gall cydlynwyr PNLl gefnogi ei gilydd yn y broses hon yn eu 'check-ins' dysgu ar y cyd.

Gweledigaeth	**Partneriaid**	**Ffyrdd o weithio**	**Cyd-destun gweithredol**
Beth mae Llwybrau Gwyllt yn ei greu?	Pa sefydliadau sy'n cymryd rhan?	Sut mae pob partner yn elwa?	Sut mae'n cysylltu rhaglenni presennol?

Gweledigaeth

Nod Llwybrau Gwyllt yw creu rhwydwaith o lwybrau sy'n:

- gwella cysylltedd ecolegol
- gwella gweithgareddau carreg drws ar gyfer iechyd y cyhoedd
- adeiladu asedau cymunedol.

Bydd pob rhwydwaith Llwybrau Gwyllt yn amrywio yn ôl anghenion ac asedau ecolegol, iechyd a chymunedol penodol ardal leol y PNLl.

Partneriaid

Rhain oedd y prif bartneriaid yn gysylltiedig â chreu'r strategaeth Llwybrau Gwyllt:

Iechyd y Cyhoedd	Cyngor Gwirfoddol Sirol
Cyfoeth Naturiol Cymru	Cynghorau Sir
Clwstwr Gofal Sylfaenol	Ymddiriedolaeth Natur
Grŵp cymunedol iechyd gwyrdd	

Gall pob PNLl gynnwys cymysgiad tebyg o bartneriaid lleol drwy adeiladu ar gysylltiadau aelodau presennol a rhannu gwybodaeth Cydlynwyr PNLl.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

Ffyrdd o weithio

Mae strategaeth Llwybrau Gwyllt yn cynnwys amcanion strategol pob partner (yr egwyddorion y maent yn eu defnyddio i gynllunio rhaglenni gwaith).

Felly, mae pob partner yn elwa ar y strategaeth. Ac mae pob partner **hefyd** yn cyfrannu at flaenoriaethau'r partneriaid eraill.

Mae'r amcanion strategol sydd wedi'u cynnwys yn Llwybrau Gwyllt fel a ganlyn:

Cysylltedd ecolegol

Mae Llwybrau Gwyllt yn cysylltu cynefinoedd naturiol lleol i greu cysylltiadau ar raddfa tirwedd ar gyfer gwytnwch ecolegol.

Gweithgareddau carreg drws

Mae Llwybrau Gwyllt yn creu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol a chymdeithasol ger cartrefi pobl, er mwyn gwella iechyd a llesiant y cyhoedd.

Datblygu ar sail asedau

Mae Llwybrau Gwyllt yn cynnwys cymunedau yn y gwaith o nodi, creu a monitro cysylltiadau rhwng lleoedd lleol, er mwyn meithrin sgiliau ac asedau cymunedol eraill.

Mae cyfuno'r strategaethau hyn yn creu **cydberthnasau dwyochrog** rhwng aelodau'r PNLl fel bod pob aelod yn elwa drwy gyfrannu at nodau'r llall:

Mae canolbwyntio ar gysylltedd **ecolegol** yn gwella gwerth **llesiant** gweithgareddau carreg drws (Ymddiriedolaethau Natur Cymru, dim dyddiad).

Mae canolbwyntio ar gweithgareddau **carreg drws** yn gwella'r **sgiliau ac asedau ffisegol** yn y gymuned (Lunt, Bainbridge a Rippon, 2021).

Mae canolbwyntio ar ddatblygu **asedau cymunedol** yn gwella cynaliadwyedd **ymyriadau ecolegol** trwy greu effaith gadarnhaol gan systemau cymdeithasol ar wytnwch ecolegol (Latham ac eraill., 2013).

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

Cyd-destun gweithredol



Mae sefydliadau partner yn creu rhwydwaith o Lwybrau Gwyllt trwy gysylltu prosiectau mewn rhaglenni gwaith presennol.
Maent yn cysylltu prosiectau trwy eu haddasu i gynnwys y tair egwyddor strategol a thrwy gymryd agwedd gyd-gynhyrchiol (gan weithio gyda chymunedau lleol ar bob cam y rhaglen Llwybrau Gwyllt).

Nododd y sefydliadau partner ymchwil nifer o raglenni gwaith yn seiliedig ar bob un o'r egwyddorion strategol a allai gydweithio, er enghraifft:

Cysylltedd ecolegol, e.e. 'Tirweddau Byw' yr Ymddiriedolaethau Natur.
Gweithgareddau carreg drws, e.e. 'Y Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff' ym maes gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd.
Datblygu ar sail asedau, e.e. 'Cynlluniau Teithio Llesol' cynghorau sir.

Er mwyn creu cysylltiadau rhwng prosiectau a'u haddasu i gynnwys y tair ffordd o weithio, bydd angen i bartneriaid PNLl gynnwys y gymuned leol i adnabod, creu a chynnal rhwydwaith o Lwybrau Gwyllt.

Gall y PNLl gysylltu â chynllun lleol 'Rhagnodi Cymdeithasol' er mwyn cynnwys cymunedau lleol mewn dull ar sail asedau i greu strategaeth Llwybrau Gwyllt.

Mae **rhagnodi cymdeithasol** yn galluogi gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol i atgyfeirio pobl ag anghenion anfeddygol i ystod o wasanaethau lleol, anghlinigol (Primary Care Hub, 2018).

Yn aml, mae gan gynlluniau Rhagnodi Cymdeithasol 'gweithiwr linc' sydd yn trafod beth sy'n bwysig i'r unigolyn ac yn ei chysylltu â grwpiau a gwasanaethau lleol. Mewn cynllun ar sail asedau, mae'r gweithiwr linc hefyd yn cefnogi'r unigolyn i gyfrannu at grwpiau lleol, ac felly yn creu rhagor o sgiliau a chyfleusterau fel asedau cymunedol.

Mae cyfuno eu hegwyddorion strategol a gweithio ar y cyd â chymunedau yn creu **cyfrifoldeb a rennir** ymhlith aelodau'r PNLl, yn lle atebolrwydd i flaenoriaethau un partner yn unig.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk

Ynglŷn â'r ymchwil

Mae'r awdur yn aelod gwreiddiol o Fwrdd Ymgynghorol Partneriaethau Natur Lleol Cymru. Ar hyn o bryd, mae hi'n Gymrawd Ymchwil gyda'r prif sefydliad ymchwil llywodraeth leol, Inlogov ym Mhrifysgol Birmingham. Mae'r papur briffio hwn yn seiliedig ar ei thraethawd doethurol, y bu'n gwneud darn o ymchwil weithredu estynedig ar ei gyfer rhwng 2016 a 2019 gyda phartneriaid ymchwil cydweithredol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Cyfrannodd yr olaf at gostau'r ymchwil. Cafodd yr ymchwil ei hadolygu'n drylwyr gan gymheiriaid fel sail i'w Doethuriaeth mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r ymchwil lawn ar gael yn:

https://research.bangor.ac.uk/portal/en/theses/crosssector-collaboration-for-wales-national-wellbeing(a935f539-869b-4be5-a41b-38f91ee738d5).html

Cyfeiriadau a ddyfynnir yn y papur briffio hwn.

Latham, J. ac eraill (2013) 'Ecosystem Resilience: a discussion paper on the use of the concept for Natural Resource Management', *Ecosystem Understanding and Future Management Team, Living Wales Programme 2012-13*, (Gorffennaf), tt. 1–24.

Lunt, N., Bainbridge, L. a Rippon, S. (2021) 'Strengths, assets and place – The emergence of Local Area Coordination initiatives in England and Wales', *Journal of Social Work*, 21(5), tt. 1041–1064. doi: 10.1177/1468017320918174.

Primary Care Hub (2018) *Social Prescribing in Wales*. Caerdydd, DU.

Ymddiriedolaethau Natur Cymru (dim dyddiad) *Natural Ways to Wellbeing*. Ar gael yn: https://www.wtwales.org/what-we-do/nature-health-and-wellbeing.

Woodcock, E. M. (2022) *Cross-sector collaboration for Wales' national well-being: Transformative action in communities of practice*. Bangor. Ar gael yn: https://research.bangor.ac.uk/portal/en/theses/crosssector-collaboration-for-wales-national-wellbeing(a935f539-869b-4be5-a41b-38f91ee738d5).html.

Dr Elizabeth Woodcock e.woodcock@bangor.ac.uk